

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 218

Pris 80c

Mis Rhagfyr 2019



“Hapus” gan Arwen Teagle



Nadolig Llawen



Cadeirydd: Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau yn unol â gofynion golygyddol.

*Ariennir yn
rhannol
gan
Lywodraeth
Cymru*



Noson Gymraeg yng Nghanolfan y Glowyr



*Y fîm buddugol yn gloddesta gyda'u henillion
wedi'r cystadlu yng nghystadleuaeth Datrys y
Dirgelwch*

Ar nos Wener, Tachwedd 15 daeth tyrfa o bobl i Ganolfan y Glowyr ar gyfer noson o Ddatrys y Dirgelwch, ond nid dyna'r unig wledd oedd yn eu haros. I agor y noson fe lansiodd Gareth Williams, yr awdur o Nelson, ei nofel ddiweddaraf, sef *Promenâd y Gwenoliaid*. Bu Ben Jones yn ei holi am gefndir y gyfrol hon a chafwyd cyfle wedyn i brynu copïau a lofnodwyd gan yr awdur.

Yna daeth yn amser i gwmni drama Cwmni Cwm Ni ddod i'r llwyfan a pherfformio golygfa fer yn sôn am lofruddiaeth gyfagos ac yn cyflwyno'r cymeriadau dan amheuaeth. Dros ddiod a bwffe blasus cafodd y gynulleidfa gyfle i drafod y dirgelwch, ac yna i holi aelodau'r cast i geisio canfod y gwirionedd.

Llongyfarchiadau mawr i dîm Merched y Wawr a enillodd y wobr a phrofi eu bod yn dditectifs o'r radd flaenaf. Mwynheuodd pawb noson ddifyr o gymdeithasu a gwledda, yn ogystal â miniogi'r ymennydd!

Ann Lewis

Oedfaon Capeli Mis Rhagfyr a Ionawr

Bedyddwyr Tonyfelin

Rhag 1af : 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
Rhag 8fed: 10.30 : I'w drefnu 6.00:Katie Collins, Hengoed (pregeth brawf)
Rhag 15fed: Yn Bethel
Rhag 22ain : 10.30 : Oedfa'r Nadolig 6.00 : Carol a Channwyll
Rhag 29ain : I'w drefnu (bore yn unig)

Ionawr 5ed : 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
Ionawr 12fed: I'w drefnu
Ionawr 19eg : Yn Bethel
Ionawr 26ain: 10.30: Oedfa EDRYCH YMLAEN a thrafodaeth

Annibynwyr Bethel

Rhag 1af 10.30. Alun Jonson
Rhag 8ed 10.30. Robert Owen Griffith (C)
Rhag 15ed 10.30. Yr Ysgol Sul
Rhag 22ain Gyda Tonyfelin trwy'r dydd

Ionawr 5ed 10.30 Y Plygain
Ionawr 12fed 10.30 ?
Ionawr 19eg 10.30. Robert Owen Griffith (C)
Ionawr 26ain Gyda Tonyfelin trwy'r dydd.

Penuel, Rhymni

1af: Parch T.Jones
8fed: Parch G.T.Jones
15fed: Rev. R.Grey
22ain: Carolau
29ain -

Capel y Groeswen

1af o Ragfyr
ADVENT SERVICE
Mr Gary Plomley

Atgofion Melys

Dyma'r gyntaf o ddwy erthygl gan Dilys Williams yn galw i gof her, aberth ac ymroddiad plant a rhieni yn nyddiau cynnar addysg Gymraeg. Aeth Dilys ymlaen, wrth gwrs, i fod yn bennaeth Ysgolion Cymraeg Brynmawr, Gilfach, Y Fenni a Bro Helyg.



Dilys ifanc pan oedd yn byw yn Nhredgar

Teimlaf ei bod yn fraint sôn am ba mor ffodus oeddwn i gael addysg neilltuol iawn.

Merch Y Cwm 'wy i erioed er imi dreulio ychydig o'm magwraeth gyda rhieni maeth yn Ashvale, Tredegar a mynychu Ysgol Fabanod Ashvale flynyddoedd cynnar fy addysg. Saesneg oedd iaith yr ysgol ond roeddwn i'n

ferch lwcus gyda fy ngheulu o Rymni yn ymweld â fi bob dydd ar y bysys "Red and White" neu'r "Charlie Hills". O ganlyniad llwyddais i ddysgu'r iaith Gymraeg o'r cychwyn.

Cymraeg oedd iaith yr aelwyd gyda fy rhieni yn Rhymni. Yn ôl yr achau teuluol daeth fy nghyndeidiau o ardal Hwlfordd a Llangurig. Mawr oedd y clod yn yr Ysgol Saesneg pan fyddwn yn adrodd neu ganu rhigymau Cymraeg o flaen y dosbarth.

Roedd fy ngheulu yn Rhymni yn ffodus i ddod o dan ddylanwad y Parch Rhys Bowen a mynychodd fy nwydychwaer Ysgol Fore Sadwrn yn y pum degau cynnar. Sefydlwyd Middle Rhymni Infant and Welsh School yn 1955 gyda Mrs Wall yn cymryd yr awenau

Rydw i'n cofio dau ddosbarth yno pan ymunais i â'r Ysgol Gymraeg yn ddisgybl yn y Babanod ar ddechrau'r chwedegau. Sefyllfa anodd imi o ganlyniad i dostrwydd annisgwyl a marwolaeth fy mam faeth. Es i nôl i fyw at fy ngheulu genedigol yn Rhymni gan gychwyn yn yr ysgol Gymraeg gyda fy nwydychwaer oedd yn hŷn na fi.

Roedd pennod newydd ar fin dechrau yn fy mywyd ac ar fy nhaith addysg. Cofiaf fel ddod cyrraedd yr ysgol newydd yn Stryd Goshen a chael fy nhrochi yn yr iaith Gymraeg. Tra gwahanol i fy ysgol Saesneg flaenorol. Fe ges i groeso mawr a chofiaf gynhesrwydd a chroeso'r staff a'r plant. Uned Gymraeg oedd yna o fewn adeilad Ysgol Saesneg a prin oedd y cyfathrebu rhwng y ddwy adran.

Roedd cymdeithas gref o rieni ac athrawon yn y dre ac roeddent yn cwrdd yn wythnosol yn y Caffi Eidaleg 'Dalanegras' ar Nos Fawrth a thestun y sgwrsio oedd llwyddiant yr iaith Gymraeg yn Rhymni. Cymysgedd o bobl o'r dosbarth canol a gweithiol oedd yn y grŵp. Pawb bron yn dod o aelwyd Gymraeg ac o dan ddylanwad y capeli di-ri oedd yn ffynnu yn y dre. Roedd dalgylch yr ysgol yn ymestyn dros y comin i Dredeggar ac o dan awdurdod Sir Fynwy.

Roedd trafndiaeth yn y blynyddoedd cynnar yn bwnc llosg ond gyda Chymdeithas Rhieni ac Athrawon gref a'r Henadur Joseff Williams yn brwydro dros yr achos, llwyddwyd trefnu trafndiaeth i Rydfelen erbyn yr ail flwyddyn o fodolaeth yr ysgol honno. Methodd fy nwydychwaer fynychu Rhydfelen ac o ganlyniad aeth un i Ysgol Ramadeg Rhymni â'r llall, ar ôl ennill clod yn ei 'Eleven Plus', i Ysgol Lewis i Ferched. Breuddwyd fy rhieni oedd bod y tair ohonom yn cyrraedd y coleg ac yn sicrhau gyrfa dda a heb orfod gweithio yn y y Bragdy neu Ffatri Smiths yn Rhymni.

Yn ôl mam, dyfal donc oedd hi a doedd "gwaith caled heb ladd neb erioed". Ymfalchiodd hi a fy nhad fod y tair ohonom wedi dod yn athrawon ond yn aml byddai Mam yn dweud "Piti nad oedd y ddwy hŷn wedi mynychu ysgol Gyfun Gymraeg er mwyn cael gwell cyfleoedd bywyd."

Doedd hi ddim yn rhwydd sicrhau plentyndod digonol i dri o blant yn ystod y cyfnod yma ond gallaf ddweud, heb flewyn ar fy nhafod, nad oeddwn i erioed wedi meddwl inni golli mas! Roeddwn yn byw mewn cymuned glos gyda fy nhysor o chwiriorydd a phawb o'n cylch yn hala ni i deimlo'n freintiedig gyda'n sefyllfa. Roedd bywyd yn braf.



Adran Iau Ysgol Gymraeg Rhymni yn y 60au

Dilys Williams

Y Spiteful

Does dim llawer o bobol wedi clywed am y “*Spiteful*”, a hyd yn oed llai yn gwybod lle mae e. Rhan o Abercarn yw e, ochr arall i’r afon Ebwy, islaw hen fferm Cilfynydd. Ac felly mae e ar waelod Mynydd Islwyn. Ond sut y cafodd enw mor anarferol?

Yn 1801 priododd Benjamin Hall â Charlotte, merch Richard Crawshay, felly priododd e i mewn i un o’r teuluoedd mwya pwerus ym Mhrydain. Yn 1807 prynodd Richard Crawshay stad Abercarn oddi wrth Samuel Glover ac yn 1808 rhodd y stad i Benjamin Hall, felly daeth Benjamin Hall yn Arglwydd Maenor Abercarn a pherchennog stad Abercarn. Roedd y Faenor yn gyfoethog o lo ond nid oedd Benjamin Hall yn berchen ar bwl glo, ond roedd e eisiau prydlesu tir i unrhyw un a oedd eisiau agor lefel. Byddai’n derbyn blaendal am bob tunnell o lo neu garreg chwarel a fyddai’n cael ei dynnu o’r ddaear. Hefyd roedd e’n gwybod y byddai’n rhaid i berchnogion y pyllau glo fynd â’u glo i’r farchnad, sef Casnewydd. Yn 1809 penderfynodd e adeiladau tramffordd iddyn nhw gario eu glo i’r gamlas yn Abercarn lle byddai’n cael ei drosglwyddo i fadau a’i gludo ar hyd y gamlas i Gasnewydd.



Twnnel Pentwynmawr fel y mae nawr, yn wreiddiol roedd yn hirach ac yn gulach yn ddigon llydan i geffyl dynnu dram

Dechreuodd y dramffordd o’r gamlas yn Abercarn gan groesi’r afon Ebwy a mynd i fyny llethr graddol drwy dyle Cox i Bentwynmawr a thu hwnt.

Roedd Samuel Glover mewn anawsterau ariannol, a phenderfynodd werthu rhannau o’r stadau. Yn 1804 gwerthodd stad Bedwellte i Henry Protheroe ac yn 1807 a stad Abercarn i Richard Crawshay.

Roedd stad Bedwellte yn ardal arall oedd yn gyfoethog o lo, gan ymestyn o bwl Penylan i ben isaf Tredegar a Glyn Ebwy, a’r tir rhwng afon Sirhywi a’r afon Ebwy.

Bwriad Henry Protheroe oedd agor nifer o lofeydd ar ei stad newydd, ond cafodd e’r un broblem â pherchnogion y glofeydd eraill, sef cael y glo i’r farchnad yng Nghasnewydd. Felly, yn 1809 dechreuodd ei dramffordd o’i lofeydd i lawr y cwm. Roedd e’n bwriadu ymuno â’r gamlas ym Mhont y Waun ond roedd problem gyda fe wrth geisio gwneud hyn, byddai’n rhaid iddo redeg dros dir Benjamin Hall, sef stad Abercarn.

Ni chweddodd â Benjamin Hall i ofyn am ganiatâd, ond yn hytrach bwrw ymlaen ag adeiladu ei dramffordd. Rhedodd rhan o’i dramffordd ochr yn ochr ag un Benjamin Hall oedd yn golygu byddai rhan olaf ei lwybr arfaethedig yn rhedeg ar hyd llethrau isaf Mynydd Islwyn, cyn croesi pont dros yr afon Ebwy i ymuno â’r gamlas ym Mhont y Waun. Ond, ar wahân i redeg dros dir Benjamin Hall byddai’n rhaid i’w lwybr groesi caeau Chapel Farm a oedd yn eiddo i Daniel Phillips.

Yn hwyr yn 1809 roedd e ar gaeau Chapel Farm yn arolygu ei lwybr ac yn torri coed i lawr, heb ganiatâd! Ar yr un pryd roedd e’n arolygu a thorri coed i lawr yn Nhyla Cox ar dir Benjamin Hall, heb ganiatâd! Aeth Benjamin Hall ag e i’r llys a’i stopio. Yn y cyfamser prynodd Benjamin Hall ddarn bach o dir oddi wrth Daniel Phillips, a chafodd chwech o dai eu hadeiladu yno, reit ar draws y llwybr roedd Protheroe wedi’i farcio ar gyfer ei dramffordd e.

Fe’u hadeiladwyd i stopio Protheroe.

Ychydig yn hwyrach cyflogodd Protheroe weithwyr i dorri gwrychoedd i lawr a thorri drysau a ffenestri a’u taflu nhw i gyd i mewn i’r tai a adeiladwyd gan Benjamin Hall. Parhaodd hyn am nifer o ddyddiau nes i’r llys ei atal.


Daeth y chwe thŷ yn adnabyddus fel “*The Spiteful*”.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach penderfynodd ei fab, hefyd o’r enw Benjamin fel ei dad, y byddai’n well i’r dramffordd osgoi Abercarn ac ymuno â’r gamlas ym Mhont y Waun, a byddai hyn yn union ar yr un llwybr a arolygwyd gan Henry Protheroe, a hefyd yn mynd trwy’r tai oedd ei dad wedi’u hadeiladu.

Malcolm David

Parhad o "Spiteful" o dudalen 4

Map yn dangos maint tramffordd
Benjamin Hall yn 1810



Dathlu 65 Mlynedd o Fywyd Priodasol



Ar 2 Tachwedd 1954 roedd Winston Churchill yn Brif Weinidog ac yn agosáu at ei ben-blwydd yn 80 oed; pobl Prydain yn mwynhau eu bwyd gan fod dogni cig a bwydydd wedi dod i ben bum mis yn gynharach, a darlledwyd y rhaglen gyntaf un yn y gyfres gomedi *Hancock's Half Hour*.

Ychydig wythnosau ynghynt, ar ddiwedd Medi, roedd gŵr ifanc o Lannon, ger Llanelli, sef Milton George Jenkins, wedi'i ordeinio a'i sefydlu'n weinidog ar ei eglwys gyntaf ym Methel, Glyn Nedd. Ac roedd 2 Tachwedd 1954 yn ddiwrnod arwyddocaol arall yn ei fywyd – diwrnod ei briodas â Rita yn y Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr, Bae Colwyn.

Roedd 2 Tachwedd 2019 felly yn gyfle i ddathlu pen-blwydd priodas 65 mlynedd – priodas saffir glas. Tipyn o gamp yn wir. Ar y diwrnod, dathlu'n dawel yn eu cartref a wnaeth y ddau gyda nifer o aelodau'r teulu'n ymgasglu gyda lluo ddymuniadau da. Ar ddydd Sul, 3 Tachwedd, ni allem ni yn Nhonyfelin adael i'r achlysur arbennig hwn fynd heibio heb ymuno yn y dathlu. Felly, yn dilyn yr oedfa cafwyd paned a danteithion yn y festri a chyflwynwyd tusw o flodau iddynt ar ran yr eglwys.

Wythnos ynghynt cafodd y ddau reswm arall i ddathlu gyda genedigaeth Mari Wyn, eu gor-wyres gyntaf. Mae Mari Wyn yn ferch i Marged, eu hwyres, a Meilyr. Mari Wyn yw'r ail or-ŵyr gan fod gan Emily, wyres arall i Rita a Milton, fachgen bach.

Pob dymuniad da i Rita a Milton a gobeithiwn gael dathlu'r 70 ymhen pum mlynedd arall.

Eirian Dafydd

Afon Rhymni dirion.....

Mae diwrnod sych ym mis Tachwedd yn denu llawer ohonom i gerdded llwybrau'n cwm ni – a rhai ohonom i fyfyrion ar weddnewidiad ein cynefin a ddigwyddodd dros y degawdau diwethaf, ers i'r pyllau gau.



Yr afon yn llifo heibio'r hen weithfeydd ym Margod.

Pan oeddwn yn blentyn, pwell glo'r Bargod oedd yn dominyddu'r dref, a'i domen wastraff anferth wedi ei fedyddio'n "Everest" gan y trigolion. Mae'r domen yno o hyd, ond wedi ei guddio gan y coed a blannwyd yn yr 1980au, a "Mynydd Bargod" yw hi i blant yr ardal heddiw. Os yw'n drist i weld yr holl siopau gwag ar stryd fawr Bargod, a chofio prysurdeb y dref yn y dyddiau gynt, mae'n bleser annisgwyl i gael cerdded ar lannau afon Rhymni - glân a hardd unwaith eto, wedi canrif a rhagor o lygredd.


Ac wrth gerdded, cael cyfle i fyfyrion ar yr afon a luniodd y cwm hwn yn ddaearogol. Hi hefyd a ddylanwadodd ar gymdeithas yr ardal tan ddyfodiad y diwydiant glo. Datblygodd rhai o'n trefi a'n pentrefi hynaf o gwmpas y pontydd a godwyd i hwyluso trafniadaeth o un ochr y cwm i'r llall. Mae enw Pontlotyn yn coffáu'r bont lydan a fu yno unwaith, yn ôl llyfr meistrolgar David Thomas ar enwau lleoedd bwrdeistref Caerffili.



Hen bont Maes-y-cwmwr yng nghysgod y draphont.

Yn ôl y llyfr hwnnw hefyd, ystyr "cwmwr" ym Maes-y-cwmwr yw "pont droed" neu "bompren". Mae stori leol am goeden fawr a gwympodd ar draws yr afon, gan ffurfio pont naturiol – ond mae'r afon yn gul iawn yno, a hawdd fyddai codi pont bren i'w chroesi.

Cyn dyfeisio'r peiriant stêm, rhaid oedd dibynnu ar bŵer a nerth dyn neu anifail, neu rymoedd natur, megis y gwynt a'r afonydd. Codwyd sawl melin ddŵr ar lannau afon Rhymni, ac mae rhai ohonynt yn sefyll hyd heddiw. Byddai defnyddwyr y melinau a'r teithwyr dros y pontydd yn croesawu cyfle i orffwys, bwyta ac yfed. Nid yw'n rhyfedd i dafarnau ddatblygu gerllaw'r pontydd.



Pont newydd dros hen afon – ger Pengam

Roedd enw tafarn yr Hen Felin yn y Bargod yn dyst i hynny, ac ar un adeg bu'n ganolbwynt bywyd cymdeithasol a diwylliannol y cylch a alwyd Pont Aberbargod yn y dyddiau hynny.

Pan ddaeth y rheilffyrdd, rhaid oedd i'r peiriannwyr gwrdd â'r her o bontio'n hafonydd. Diflannodd llawer o'u campweithiau gyda dirywiad y rheilffyrdd a'r diwydiant glo. Ond saif rhai ohonynt o hyd, yn dystiolaeth i grefft, hyder a chyfoeth y dyddiau a fu. Roedd melin wlân Maesycwmwr yn fusnes lwyddiannus am ganrif a rhagor, ac mae'r adeiladau sy'n sefyll yno gerllaw'r hen bont ac yng nghysgod y draphont yn tystio i'r llwyddiant hwnnw.

Un o'n cwm ni hefyd yw'r adeiladydd pontydd William Edwards o'r Groeswen. Mae'n enwog am ei bont ryfeddol a hardd ym Mhontypridd, ond dysgodd ei grefft yn ein cwm ni, trwy arsylwi ar waith crefftwyr lleol, ac ar adeiladwaith castell Caerffili.

Cyfansoddwyd y triban am yr afon cyn dyfodiad y diwydiant glo i'r cwm, mae'n debyg, oherwydd cyfeiria at natur ddigyfnewid yr afon. Mae rhai ohonom yn ei chofio'n ddu, yn llifo rhwng glannau a lygrwyd gan wastraff y gweithiau. Ond heddiw gallwn gytuno gyda'r hen fardd eto:

"Er gweled llawer tro ar fyd
Yr un o hyd yw'r afon."

Dr Elin Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Mae 11 gair yn ymwneud â'r Nadolig yma. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

CAMEL	CAROLAU	BUGEILIAID
MAIR	JOSEFF	BABI
BETHLEHEM	ASYN	HEROD
BRENIN	SEREN	

Mae WYTH gair wedi'u cymysgu yn y parsel yma. Allwch chi ysgrifennu'r llythrennau yn eu trefn gywir.

TEISEN	HOSAN	CINIO
SIOPA	SION CORN	COEDEN
PWDIN	ANRHEGION	



Mae'r atebtion ar waelod tudalen 15

Enillwyr Eisteddfod y Cymoedd 2019

Diolch i drefnwyr Eisteddfod y Cymoedd am adael i ni gyhoeddi gwaith rhai o'r cystadleuthau cartref.

Brexith

O eisiau stad ynysig – y darniwyd

Y Deyrnas Brydeinig;

Ond rhed Cymru'n unedig

Heibio'r rhwyg i hawlio'r brig.

Hengoed (Eirian Dafydd)

Gobaith

Swatïaf yng nghesail y gobennydd

ac amdoi'r dillad yn dynnach amdanaf.

Sŵn traed ar y grisïau.

Mae'n bump a'r tŷ'n ymystwyrïan.

Clustfeiniad am glicied y giât,

am glec y sodlau dur ar eu ffordd

i bwl yr Hafod, a Phlas Power i'r Groesffordd ac i'r Bers.

Mae dolef yr hwter cynnar

yn galw'r tanwyr, yr halwyr a rwbelyr y bonc

i geibio'r fywoliaeth grintach o dafellau'r wythien ddu.

Ar gwareli ffenestr y llofft

mae'r barrug yn batrymog, luniaidd;

yn aderyn, yn geffyl, ac yn y gornel yn gapel.

Ie, y capel – ac mae'n rhaid i mi

Ddysgu'r adnod yna cyn y Sul.

"A bydded i'n Harglwydd Iesu Grist ...a Duw ein Tad" Nage

"ei hun." Ie, be' wedyn?

"Ei di ddim allan i gicio'r bêl na, ngwas i

Nes y byddi di wedi'i dysgu hi".

"Dechreuwch ar eich symiau yn dawel!"

Y tu ôl i Elin yr ydw i heddiw,

Mae gwynt ffein ar ei gwallt hi.

Tri chant, saith deg a naw, a thynnu allan

un cant, pum deg a saith.

Mae Elin yn gw'bod yr ateb

Ac os a' i'n nes ati mi ga' i'r ateb a 'falle

Y galla'i roi fy llaw ar ei braich hi.

Daliaf yn dynn yn fy chwecheiniog gloyw

a'i wthio dan y ffenestr yng Nghae'r Dre.'

Yn lloc y bechgyn mae'r gweiddi'n ffyrnigo; dwy gôl yr un.

Mae ngheg i'n grimp a nghalon fel gordd yn ergydio.

Baglu, cic o'r smotyn a chyfle

Plîs Duw, gad iddyn nhw sgorio.

Mi fydda' i wedi ei dysgu hi erbyn y bore.

O! plis, Duw.

Chwiban, a'r ergyd – mae hi mewn!

Tair i ddwy i'r Dre'; diolch Duw!

'Rydw i wedi addo.

Yng nghrombil pwll y Groesffordd

fe ffrwydrodd y belen nwy

Yn ymysgaroedd y ddaear mae'r goelcerth ar grwydr,

yn serio'r dwylo, yn deifio'r wynebâu,

a chwmwl y mwg yn cloi'r ysgyfaint

Ar ben y pwll terfyn y gobaith,

Deucant o wragedd gweddwon,

gwehelyth y creithiau glas.

"Wel, machgen i," meddai Mr Ifans

"Oes gennyti adnod inni'r bore ma?"

"A bydded i'n Harglwydd..." Ie, machgen i..."

"A bydded i'n Harglwydd Iesu Grist ei hun, a Duw ein Tad,

yr hwn sydd wedi ein caru ac wedi rhoi i ni ddiddanwch

bythol a gobaith da trwy ras."

Hafod (Gaenor Jones)

Y Limrig

Aeth Warren a'i garfan i Tokyo

Dychwelodd 'rhen Howley fel "yoyo"

Fe laniodd yn arwr


Gadawodd yn fradwr

A nawr mae e'n eistedd yn gwylio.

Pablo (Dylan Lawlor, Ysgol Cwm Rhymini)

Y llun ar y clawr Hwn yw'r llun a enillodd y wobr gyntaf i Arwen Teagle yn y gystadleuaeth Llun Unigol mewn ymateb i'r teitl "Hapus"


Llongyfarchiadau Arwen!





Môr a Mynydd

gan Lynda Ganatsou



Mae Lynda'n cystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd pob blwyddyn o Wlad Groeg.



BWLETIN YSGOL GYFUN CWM RHYMNI



Braint ac anrhydedd oedd bod yn bresennol yng Nghynhadledd gyntaf Is-bwyllgorau Cwm Rhymni eleni. Cynhaliwyd y diwrnod ar safle'r Gwyndy gyda dros 140 o ddisgyblion y ddwy safle yn bresennol. Braf oedd gweld yr atriwm dan ei sang ac yn fwrlwm o drafodaethau. Roedd yr iaith wir ar waith!

EICH LLAIS



Penderfynwyd sefydlu'r saith Is-bwyllgor wedi i ddisgyblion Cwm Rhymni fynegi barn mewn cyfarfodydd Cyngor Ysgol. Teimlwyd bod angen llais ar gynifer o ddisgyblion ag sy'n bosibl i fedru trafod materion cyfoes sydd yn bwysig i galon pob blwyddyn.

Nhw benderfynodd felly ar y saith sef:

- Cymreictod (Dreigiau)
- Elusennol
- Eco
- Gweithdrefnau
- Lles Meddyliol
- Lles Corfforol
- Technoleg



Proses Benodi Ddemocrataidd

Ar ôl derbyn cyflwyniadau ar yr Is-bwyllgorau mewn gwasanaethau, rhoddwyd cyfle i unigolion o bob blwyddyn i ysgrifennu llythyrau yn cyflwyno eu rhinweddau a'u gweledigaeth ar gyfer amcanion pob Is-bwyllgor. Ar sail y llythyrau, dewiswyd 2 i 3 aelod o bob blwyddyn ar y ddwy safle i gynrhychioli pob Is-bwyllgor. Dyma EICH LLAIS yn sicrhau bod barn y disgyblion yn gwbl amlwg yng Nghwm Rhymni.

Y Gynhadledd Fawreddog

Ar Dachwedd y chweched felly, cynhaliwyd y gynhadledd fawreddog. Gweithgaredd gyntaf y diwrnod oedd penderfynu ar 4 amcan y pwyllgor am y flwyddyn gan amlinellu'r rhesymau am yr amcan a sut i wireddu'r nod. Derbyniwyd anogaeth ac arweiniad ysbrydoledig gan aelodau'r chweched a oedd yn cadeirio'r gweithgareddau. Uchafbwynt y dydd oedd cael gwrando ar yr holl gyflwyniadau yn amlinellu Llais y Disgyblion. Yr hyn a'n syfrdanodd i gyd oedd pa mor aeddfed ac adeiladol oedd yr ymatebion, hyder y cyflwyniadau ac ansawdd yr amcanion. Yr her nawr fydd gwireddu'r nodau a hysbysu'r disgyblion o'r hyn a gyflawnwyd. Edrychwn ymlaen at ein cynhadledd fawr nesaf. Tŷ'r Goleuni!

Adroddiad Mrs Caryl Hall-Williams



Gwersi Lles

Yn eu gwersi lles wythnosol, mae disgyblion Cyfnod Allweddol 3 wedi bod wrthi yn ystyried eu llwyddiannau ac yn trafod sut y gallent wneud cynnydd pellach eleni. Felly gwahoddwyd Owen Thomas o Brifysgol Caerdydd i'r ysgol i sgwrsio gyda'r disgyblion am opsiynau TGAU a gwneud penderfyniadau doeth ar gyfer y dyfodol gan gynnwys addysg uwch. Edrychwn ymlaen at sesiynau gyda Gyrfaoedd Cymru a'r Heddlu yn ystod y tymhorau nesaf.



Gwlad yr Iâ 2019

Aeth disgyblion Blwyddyn 9 a 10 ar ymweliad hynod o

lwyddiannus i Wlad yr Iâ, "The Land of Fire and Ice". Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â nifer o ryfeddodau arbennig yn cynnwys Rhaeadrau Gullfoss, Skógarfoss a Seljalandsfoss, Rhewlif Sólheimajökull, Llosgfynydd Eyjafjallajökull, Parc Cenedlaethol Pingvellir lle mae'r platiau tectonig yn gwahanu, dinas Reykjavik ac hefyd pwll geo-thermol y Blue Lagoon! Diolch yn fawr iawn i Miss Daniels am drefnu.

Cyngor Ysgol

Aeth aelodau Is-bwyllgorau'r Cyngor Ysgol i Dŷ Penallta i groesawu Pencampwr Ieuencid Newydd y Sir a chyfarfod y Cynghorydd Philippa Marsden. Manteisiwyd ar y cyfle i holi Mrs Marsden am flaenoriaethau'r Is-bwyllgorau a chafwyd trafodaeth fuddiol iawn.



"Jones is good at Welsh, sir!"

Bore Iau, 24ain o Fedi 1959 oedd hi yn Nosbarth Fform Ffôr Ysgol Ramadeg Pontardawe. Roeddem ar ganol enghraifft brin o wers berthnasol. Heddi roedd un o athrawon yr Adran Saesneg yn cyflwyno'r wers *Civics* wythnosol. Roedd e newydd gyhoeddi wrth y dosbarth fod Etholiad Cyffredinol i'w gynnal ymhen pythefnos, ar yr 8fed o Hydref. A'i fwriad, felly, oedd cynnal ffug etholiad yn ystod ei wers ddiwrnod yr etholiad.



Harold Macmillan
a enillodd - nid fi!

Bu'r athro, Mr Hallasey, fawr o dro yn dod o hyd i wirfoddolwr i siarad dros Lafur gan y byddai 99.99% o rieni plant y dosbarth fel arfer yn pleidleisio dros y blaid honno! Roedd un o 'nghyd-ddisgyblion beth bynnag am fod yn wahanol. Gan fod ei dad yn rheolwr gwaith glo teimlai fod achos teilwng gan y blaid

Geidwadol. A beth am y Rhyddfrydwyr (cyn iddynt ddod yn Ddemocratiaid

Rhyddfrydol)? Ond, doedd neb am bledio achos y rhain am nad oedd neb yn siŵr iawn beth oedd eu polisïau - beth sydd wedi newid!

Syndod braidd oedd awgrym yr athro y gallai rhywun gyflwyno achos Plaid Cymru. Atebwyd ef gan lais o gefn y dosbarth yn datgan bod *"Jones"* yn *"good"* yn *"Welsh"*. A phwy oedd y *"Jones"* hwnnw? Ie, chi'n iawn"! A'r athro wedyn yn gofyn i fi, *"Will you speak for Plaid Cymru, Jones?"*

I'r rhai ohonom sy'n cofio ieithwedd yr hen ysgolion gramadeg bydden ni'n deall mai'r hyn roedd e'n ddweud mewn gwirionedd oedd, *"You will speak for Plaid Cymru, Jones"*.

Prin, wrth gwrs, oedd fy sgiliau areithio yr adeg honno a minnau rai misoedd yn brin o'm pymthegfed pen-blwydd, ond roedd dihangfa gerllaw. Yr arloeswr iaith a gwleidyddiaeth genedlaetholgar, Eic Davies, oedd athro Cymraeg yr ysgol, ac roedd e'n gefnogol iawn i'r Blaid Genedlaethol. Gwydden ni i gyd hynny gan ei fod yn parcio ei gar y tu allan i gatiau'r ysgol a hwnnw wedi'i orchuddio â phosteri'r Blaid - er mawr annifyrrwch i staff Seisnig/ Prydeinig yr ysgol (a nifer ohonynt hwythau'n Gymry Cymraeg).


Cefais gan Eic lwyth o daflenni yn llawn o ystadegau a ffeithiau ar gyfer fy nghyflwyniad. Yn fwyaf arbennig, hanes y teulu Beasley o Langennech a'i hymgyrch dros gael ffurflenni gan gyngor Llanelli yn y Gymraeg. Gyda'r fath wybodaeth, sut allwn fethu ag ennill, pa mor gryf bynnag oedd y traddodiad Llafuraidd? Gwelwn un anhawster, beth bynnag, a hwnnw oedd y byddai rhai am ddangos trugaredd tuag at yr ymgeisydd Ceidwadol. Felly, gwnes apêl gref iddynt beidio â gadael i Lafur gael eu ffordd, eto fyth, tra bo fi yno i'w trechu. Trodd fy rhagdybiaeth yn wir gan i bedwar person bleidleisio dros y blaid las - a finnau'n colli o ddim ond TAIR pleidlais! Gwers a arhosodd gyda fi mewn sawl etholiad wedi hynny. Ac o ble, meddech chi, y daethpwyd o hyd i BEDWAR Tori yng Nghwm Tawe yn ystod 50au'r ganrif o'r blaen?

Y Clwb Darllen

"Ysbryd yr Oes" gan Mari Williams oedd y llyfr dan sylw pan gyfarfu'r clwb darllen ar Dachwedd 4ydd. Hon yw'r nofel a enillodd Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol 2018.

Mae'r llyfr yn dilyn hanes dau Gymro o'r enw John mewn dau gyfnod tra gwahanol – John Penri y Piwritan o'r unfed ganrif ar bymtheg a fu farw dros ei gred, ac athro hanes o'n cyfnod ni o'r enw John Williams. Tybiai'r grŵp mai bwriad y nofel oedd cymharu problemau moesoldeb a chydwybod y ddwy ganrif a gwrthgyferbynnu hefyd y ddwy gymdeithas y trigai'r prif gymeriadau ynddynt.

Y farn gyffredinol oedd mai hanes John Penri yw rhan orau'r nofel o ddigon. Mae e'n ymddangos yn gymeriad mwy crwn ac argyhoeddiadol na'i gymar cyfoes, a'i hanes yn llawer mwy diddorol. Soniwyd y gallai'r awdur efallai fod wedi llunio nofel dda am hanes John Penri yn unig. Doedden ni ddim yn siŵr am yr olygfa yn theatr Kit Marlowe, serch hynny!



Merched y Wawr Cwm Rhymni

Daeth nifer dda o aelodau i gyfarfod mis Tachwedd a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Glowyr, Caerffili.

Roedd pawb yn awyddus i ddysgu mwy am win a chaws. Roedden ni'n ffodus iawn i gael cwmni arbenigwraig sef Lowri Russell i ddangos inni pa win i weini gyda gwahanol fathau o gaws.

Daw Lowri o ardal Wrecsam (pentref Caego a bod yn fanwl). Aeth i Ysgol Uwchradd Morgan Llwyd.

Daeth i Gaerdydd i astudio a fel llawer ohonom, aeth hi ddim nôl. Ymgartrefodd yn y ddinas ac erbyn hyn mae mab ganddi gyda'i phartner, Llŷr.




Dechreuodd Lowri ymddiddori mewn gwin wrth fynd allan i gael pryd o fwyd a sylweddoli doedd hi ddim yn deall pa win i'w ddewis. Erbyn hyn mae hi wedi ennill tystysgrif Lefel 3 "WSET Award in Wines". Un dydd hoffai gael busnes gyda'i brawd, sy'n gogydd yn y Gogledd.

Cawsom noson hwyliog mewn stafell gartrefol a chynnes. Roedd pawb wrth eu bodd yn dysgu am flas ac ansawdd gwin. Daeth pob un o'r pump gwin a brofwyd o wledydd gwahanol ac roedd sawl caws ar gael i gyd-fynd â nhw. Prynyd pob potel o win mewn archfarchnadoedd yn yr ardal a phob un dan £10.

Roedd hi'n bleser cael ymwelydd newydd sy wrthi yn dysgu Cymraeg yn y Ganolfan. Byddai'n braf croesawu rhagor o ddysgwyr yn ein cyfarfodydd. Beth am ymuno â ni ym mis Rhagfyr?

Jenni Jones-Annetts



Mewn cymhariaeth, braidd yn ddi-liw yw cymeriad John Williams a'r cyfeiriadau at derfysgaeth heb lawn asio â gweddill ei stori. Nid oedd y grŵp yn dangos llawer o frwdfrydedd at ddiwedd glo ei stori chwaith a'r profiad anghyffredin a gafodd yn Leiden. Hwyrach i'r awdur roi gormod o nodweddion gwahanol mewn nofel gymharol fer ac mae hyn yn amharu ar ei neges.

Ar y llaw arall, mae Mari Williams yn ysgrifennu'n rhwydd a chrefftus. Llwyddodd i amrywio ei harddull rhwng y darnau o ddau wahanol gyfnod a chytunwyd bod hyn yn dipyn o gamp.

Mae'r Clwb Darllen yn cyfarfod ar brynhawn Llun cyntaf pob mis yn llyfrgell Caerffili am 2 o'r gloch. Ar Ragfyr 2, byddwn yn trafod nofel ddiweddaraf Gareth Williams, "Promenâd y Gwenoliaid", a hynny yng nghwmni'r awdur. Dewch i ymuno â ni ac fe gewch groeso cynnes.

Ann Lewis

Colofn Dafydd Islwyn

Un bore'r wythnos diwethaf, arhosodd y bws wrth y goleuadau yng Nglan y Nant. Sylwais ar yr arwydd yng ngheg y lôn, B4254, yr un sy'n arwain trwy Lan y Nant am Ben Pedair Heol, i Gelligaer ac i lawr heibio Llancaeach Fawr i'r Shingrig, Trelewis ac am Nelson. Ardal y dylwn ganmol ei diwylliant. Yn neuadd bentref Glan y Nant y cynhaliodd Heather Jones un o'i pherfformiadau cyhoeddus cyntaf yn y Cwm. Onid oes rhyw wefr i'w gael wrth sibwrdd Pen Pedair Heol? Wrth ddweud yr enw wrthyf fy hun ar y bws gwenais. Cofiais am un etholiad lleol ym Margod. Un noson yr oedd un o gynghorwyr Llafur y dre yn canfasio yn ein stryd. Deuthum wyneb yn wyneb ag ef. Meddai wrth ei gyd-gynghorwr a'i ddilynwr yn Saesneg Bargod, "Mae hwn eisiau arwyddion dwyieithog...". "Nag ydw," atebais ef yn bendant. Syrthiodd ei wyneb! "Faint o enwau Saesneg sy ar y pentrefi o Bant y Waun i lawr i Ystrad Mynach?" gofynnais iddo. Aeth y Cynghorydd Bill Bennett i'w fedd heb fy ateb.

Pan mae rhywun yn taro Gelligaer, pa ffaith am yr ardal hanesyddol sy'n dod i'r meddwl gyntaf o'r nifer o rai pwysig am y lle? Yng Ngelligaer y cyfansoddwyd y gerdd ryfeddol broffwydol 'Armes Prydain' oddeutu 920- 42, cerdd yn galw ar i'r Cymry a'u cynghreiriaid ymuno mewn ymgyrch gyffredin yn erbyn yr Eingl-Sacsoniaid dan 'luman glân Dewi'! Ni yng Nghwm Rhymini biau'r gerdd. Bu i un prifardd fod mor hy â'i chysylltu â Sir Benfro! Ryw brynhawn gwlyb bydd yn rhaid i mi ddarllen Gwyddionadur Cymru a nodi'r holl ffeithiau sydd am Gelligaer ynddo gyda'i gilydd.

Am byth y cofiaf y daith ar fws *Red and White* o Fargod i'r Shingrig fore Gwener, 21ain o Hydref 1966, heibio i fferm Tophill a sylwi mor fygythiol oedd y tywydd. Ychydig a feddyliais y munudau hynny y byddai'r dyddiad yn cael ei serio ar gydwybod yr ardal. Bob tro y teithiaf heibio i Lancaeath Fawr holaf fy hun a weithiodd Dafydd Ben Wyn, a flodeuai rhwng 1550 a 1600, gywydd coffa i Mari Carn gwraig Edward Prichard o Gelligaer, cyn iddi farw? Bu farw y bardd yn 1600, y flwyddyn y priododd Mari a bu fyw am flynyddoedd gan roi genedigaeth i naw o blant! Dafliad carreg o Lancaeath Fawr mae'r Shingrig, Trelewis.

Cyrhaeddais y pentre ym Mis Medi 1964 i ddechrau fy ngyrfa fel athro yn yr ysgol gynradd leol. Bum yno tan ganol mis Rhagfyr 1978. Dechreuais gofnodi fy argraffiadau o'r lle mewn cerdd fis Awst 2012. Eleni y gorffennais hi!



Dau Bentre

(Trelewis, mis Medi 1964)

Mae yma dai,
cartrefi'r plant
a fydd wrth fy nhraed
yn yr ysgol leol.

Mae yma strydoedd styfnig
heb ildio fawr ddim
i ormes y pwll glo.

Mae yma ddwy dafarn
Y Bont a'r Ffald
i leddfu blinder y glöwr.

Mae yma addoldai
a'r ddau neu dri yn ymdrechu
i gadw y drysau gwichlyd
ar agor

Mae'r hen ddyn yma
o Efail Shingrig
i Gilfach Maen Isaf
fel ag yr oedd yn y Rhos.

Yn 1993 ysgrifennodd Maggie Price *'Kingfisher of Hope'* a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer. Mae hi'n portreadu bywyd yn Nhrelewis yn ystod ei phlentyndod bron i ganrif yn ôl. Awdur arall a anwyd yn Nhrelewis ydy Alun Watkins.

Ym Mehefin 2013 cyhoeddwyd y gyfrol, *'A Village Headmaster'* gan Gelligaer Publishing. Hanes prifathro Trelewis rhwng 11eg o Ebrill 1882 hyd 31ain o Fawrth 1913. John Davies (1851-1942) brodor o Gapel Betws, Llangeitho, Ceredigion, oedd y pedwerydd i ddal y swydd ers agor yr ysgol.

"Dosbarth Wyn"



Dyma ddosbarthiadau'r Athro Wyn James am y tri mis nesa.
Yn cyfarfod, festri capel Tonyfelin, Caerffili. 7:00—9:00

Rhagfyr 10fed: Barddoniaeth y Goron
Ionawr 14eg: Barddoniaeth - yr Englyn, Telyneg ac ati
Chwefror 11eg: y Cywydd, Soned ac ati

Dewch i ymuno â ni gan fod croeso cynnes yn eich disgwyl.

Mae'r Nadolig bron â chyrraedd unwaith eto. Oes gyda chi hoff garol Nadolig? Un o fy hoff garolau i yw 'Awn i Fethlem bawb dan ganu' gan Rhys Pritchard.

Roedd Rhys Pritchard yn ficer Llanymddyfri, ac roedd e'n byw rhwng 1579 a 1644. Roedd e'n poeni am sut roedd pobl yn byw ac roedd e eisiau rhoi *cyngor* iddyn nhw ar sut i fyw bywydau da. Roedd e'n poeni hefyd achos doedd pobl ddim bob amser yn deall *iaith ffurfiol* y Beibl. Roedd y Ficer Pritchard yn fardd ac felly ysgrifennodd e gerddi mewn *iaith syml, bob dydd*, yn adrodd storïau o'r Beibl ac yn rhoi *cyngor* i bobl.

Cyhoeddwyd y cerddi yma mewn llyfr o'r enw **Cannwyll y Cymry**. Un o gerddi'r Ficer Pritchard yw'r garol hon.

Awn i Fethlem, bawb dan ganu,
neidio, dawnsio a difyrru,
i gael gweld *ein Prynwyr c'redig*
aned heddiw, Ddydd Nadolig.

Mae'r angylion yn *llawenu*,
mae'r *ffurfafen* yn *tywynnu*.
mae llw'r nef yn canu hymnau
caned dynion rywbeth hwythau.

Ni gawn seren i'n goleuo
ac yn serchog i'n *cyf'rwyddo*
nes y dyco hon ni'n *gymwys*
i'r lle *sanctaid* lle mae'n gorffwys.

cyngor : advice

iaith ffurfiol : formal language

iaith syml bob dydd : simple everyday language

cyhoeddwyd : were published

difyrru : to enjoy

ein Prynwyr c'redig : our kind Redeemer

cyf'rwyddo : to direct

yn gymwys : exactly

sanctaid : holy

llawenu : to rejoice

ffurfafen : sky

tywynnu : to shine


caned dynion : let men sing



SORI !!

Ymddiheuriadau fil i ferched glandeg
"Lleisiau Rhymni", cwmni llefaru'r sir,
am i ni fethu cynnwys eu llun yn ein
rhifyn blaenorol. Dyma nhw yn
perfformio yn Eisteddfod y Cymoedd
eleni lle daethant yn ail anrhydeddus
i Aelwyd Cwm Rhondda.
Sach liain a lludw i'r golygydd a
llongyfarchiadau i'r merched!

Atebion Posau'r Plant



Dyma fentro ar y pumed erthygl yn y gyfres. Ysgrifennu un oedd y bwriad ond dal i ddod mae'r adborth. Dim ond un ymateb, serch hynny, a gafwyd i'r her o gynnig ystyr rhai geiriau. Dywedodd un darlennydd na allai ddisgwyl tan fis Chwefror am yr "atebion" ac felly dyma nhw!

Enllyn: *relish* yn Saesneg ond prif gynnwys pryd o fwyd, megis cig neu bysgodyn i fynd gyda'r tatws a'r llysiau. Crwmp: *scruff of the neck*. Clwc: iâr sydd ddim yn dodwy ac, felly, disgrifiad o rywun oedd ddim yn hwylus fel "mae e'n ddigon clwc". Rhython: cocos, ond yn benodol cocos yn dal i fod yn eu mashgal (cregyn). Sgymren: *perch* fel yn "Roedd e mor denau â sgymren". Ffasg: basged i osod dillad brwnt i fynd i'r olch ac wedyn i osod y dillad glân ar gyfer eu smwddio.

Gor-gynhesu yw "crasu" meddai'n trysorydd sydd yn hanu o Sir Benfro a diolch yn fawr i Mrs Gwenda Morgan, sy'n dod o Frynaman ond yn byw yn Rhiwbeina ers nifer o flynyddoedd bellach. Mewn ymateb i'r ymadrodd a gynigiwyd y mis diwethaf bod rhywun sydd ar drothwy angau, "dim ond ei fod e", dywed Gwenda mai'r dywediad oedd hi'n gyfarwydd ag e oedd bod "lليw'r pridd" arno fe. Os oedd wedi "colli tir", hynny yw colli pwysau, ei fod wedi "colli lot gydag impid (y gwanwyn) neu gyda chwympiad y dail (yr hydref)". Os oedd rhywun mor sâl ei fod yn methu sefyll lan yn syth, y dywediad oedd "ei fod yn ddau ddwbl a fflat".



Yn aros ym Mrynaman, roedd rhywun byrbwyll "ddim yn hanner call" neu ei fod "yn hanner call a dwl". Ond yng Nghwm-gors dywedwyd am rywun felly: "Whwech siort o golled sydd - ac ma'r whwech ar hwnna!" Ond os oedd yn rhedeg i ffwrdd neu'n ymadael, ei fod yn "cilio" ("encilio" efallai?). Ond gair newydd i'r awdur oedd "siesbin" am

shoe horn ac mae geiriadur Bruce yn cadarnhau'r gair hwn. A beth am alw menyw oedd yn rhy "ewn" (eofn) yn "bishyn ffit" neu'n "dwmpyn gwredd"?

Dywedir am un sydd a meddwl uchel o'i hunan ei fod yn "bothell o ddyn" a bod un sy'n methu cysgu'r nos fel "cyhuos" sef rhith/ysbryd/drychiolaeth. "Plant Mari" oedd yr enw ar Babyddion mewn sawl ardal oherwydd pwyslais y ffydd honno ar y Fair Forwyn. Ond ym Mrynaman roedd e'n derm i ddisgrifio teulu â nifer fawr o blant, oherwydd tueddiad Catholigion i fagu teuluoedd mawr, efallai?

Ond cyn ffarwelio â dywediadau Gwenda, diddorol nodi, tra bod y rhan fwyaf ohonom yn dweud fod rhywbeth "mor wyn â'r galchen", tueddai trigolion y Gwter Fawr ddweud fod rhywbeth "mor wyn â'r carlwm". Mae hyn yn codi'r cwestiwn: pa mor aml y'ch chi'n gweld carlwm ym Mrynaman!

Dywediadau sydd i'w clywed ym Mrynaman a mannau eraill â'u hystyr yn ddigon clir yw: Cam cynta, cam gorau; Satan yn ceryddu pechod; mynd i glwydo; trwch blewyn mwydyn/chwannen (yn Tymbl); wedi copri (tywydd yn gwaethygu); cwt y gynnen (rhywun oedd yn hoff o gynhyrfu'r dyfroedd); yn oer fel clai; mae e fel heddi a fory neu yng nghymoedd y de-ddwyrain yn "ddidoreth"; 'Smitw yw Ynysmeudwy yng Nghwm Tawe; pob copa gwalltog (a diwallt?): fel delph ("oaf"?); llog oedd "iws" arian ("usery"?). Hances? Gallwch ddewis rhwng nished neu facyn. Cael drwg nid anaf fydden nhw yn y gwaith glo yn enwedig os byddai hynny fel canlyniad i "gwypm".

Er mwyn bod yn ddarbodus dylid cofio mai, "Yng ngenau'r sach mae tolio (cynilo)."

Petawn yn begetan mam am arian i brynu taffish a mam yn pledio nad o'dd yr arian ganddi, bydden i'n ddigon haerllug i fynnu bod digon ganddi. Ateb mam yn ddiymdroi oedd, "Ma dou siort o ddicon - a dicon bach yw beth sy'da fi."

Ond pan fyddai mam yn teimlo iddi wneud diwrnod da o waith, dywedai ei bod wedi gwneud "melin ac eglwys". Ac roedd hynny tipyn yn well



na rhywun oedd "yn 'neud dim byd â'i ddeg ewin". Ond petai mam yn cwyno am ei hoed a ninnau'n ei hannog drwy ddweud ei bod yn ddigon ifanc, ei hateb parod bob tro oedd, "Mwy sydd eisoes wedi'i dreulio na sy'n ôl o'r anial fydd".

Diolch eto i'r sawl gyfrannodd tuag at y gyfres hon o erthyglau. Bu'n brofiad hyfryd trafod ac yn fodd o godi sgwrs gydag amryw ohonoch.



Dydd Llun Rhagfyr 23
16:00

Yng Nghanolfan Cristnogol Siloh, Ystrad Mynach

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Coginio

(i oedolion)

Addas i ddysgwyr a siaradwyr rhygl

Nos Lun, Rhagfyr **9 & 16**

18:30-20:30

Safle Y Gwyndy, Cwm Rhymni, Caerffili

£6
y sesiwn

Cysylltwch i gofrestru a derbyn manylion y rysait cyntaf

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913

Cwmni

Cysylltwch â ni ar
FACEBOOK
Teipiwch i mewn enw'r papur
ac fe welwch y logo

Cwmni

*Dyma gyfle i chi fynegi barn.....
cyfrannu darn o newyddion.....
dweud jôc,,,,,,,,, awgrymu
sut allwn ni wella'r papur !!!
Beth amdani?*

Cwmni

Menter Iaith Sir Caerffili

Sesiwn Stori a Chanu i fabis

Dydd Iau
9:45—10:30
Llyfrgell Trecelyn

Dewch draw i Lyfrgell Trecelyn ar gyfer sesiwn stori a chanu Menter Caerffili. Yn rhad ac am ddim – yn addas i blant blynyddoedd cynnar (0-3 oed). Rhaid i oedolion aros gyda'r plant

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfodydd nesa: Dydd Gwener
13eg o Ragfyr/ 10fed o Ionawr

“Cawl” a Straeon Eraill gan awduron amrywiol
2 o’r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi’r Graigbob dydd Llun o
10.30 ymlaen
A’r bore coffi yn y Malcolm Uphill (Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o’r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf Llyfrgell Newydd Caerffili
2:00 o’r gloch

Rhagyr 2ail: Promenâd y Gwenoliaid
Gareth W. Williams

penneyje961@gmail.com
Croeso cynnes i bawb

Clwb Cerdd Cwm Rhymni CYNGHERDDAU BYW yn YSTRAD MYNACH

Ionawr 25ain

Ensemble Llinynnol De Cymru

yng Nghanolfan Gristnogol Siloh

Perfformiadau yn dechrau am 2.30

Lluniaeth yn ystod yr egwyl
www.rhymnevalleymusicclub.org.uk

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

CYNGERDD NADOLIGAIDD
A CHRISTMAS CONCERT
Côr Cwm Ni
gyda | with
Bechgyn Bro Tâf
a | and
Côr
leuenctid Caerffili
CAPEL TONYFELIN CHAPEL
CAERFFILI
3.12.19 7.30PM
TOCYNNAU | TICKETS £5
TALADWY WRTH Y DRWS | PAYABLE AT THE DOOR

www.cwmalele.cymru



CWMALELE

Sesiynau pob nos Fawrth
Clwb Rygbi Penallta
6:00-8:00
£5 y sesiwn
07745927308
dafgog@gmail.com

Pob Nos Fawrth 7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Hanes Cwm Ni

9/1/20 Rhys Jones


Traddodiadau Cymreig

6/2/20 Thomas Hughes

Dylunio'r Faner - Hanes T.H
Thomas (Arlunydd Penygarn)

5/3/20 Allan Cook

Pererindod



Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL

Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702



Merched y Wawr Cwm Rhymni



Dydd Mawrth, 17^{eg} o Ragfyr

**YMWELIAD â THY TREDEGAR
Casnewydd**

I fwynhau Naws Nadoligaidd fel yn y
flwyddyn 1840

**Cwrdd am 10.30 y tu mewn i'r Brif
Fynedfa**

Cinio Ysgafn ar y Safle

Bydd cost mynediad a pharcio os nad
ydych yn aelod o'r Ymddiriedolaeth
Genedlaethol

Am wybodaeth ac i ymuno â ni
cysylltwch â Gaynor:

gaynorw555@gmail.com

*Croesawir aelodau hen a
newydd a dysgwyr i'n plith.*

Teithiau i'r Wladfa 2020



Dy ni hefyd yn cynnig
teithiau preifat i'r Wladfa
ac ar draws America Ladin!
Cysylltwch nawr am rhagor
o wybodaeth!

EIN TEITHIAU NESAF:

Taith y Pasg: 3 Ebrill - 17 Ebrill ~ £4595

Taith Eisteddfod Trevelin: 23 Ebrill - 7 Mai
(Cynnig cynnar ar gael) ~ £4395

HEFYD YN 2020:

Taith Amaethyddol (Mis Medi)
Taith Eisteddfod y Wladfa (Mis Hydref)
Taith Pen-blwydd Trevelin (Mis Tachwedd)



0170 631737 | POST@TEITHIAUTANGO.CO.UK
WWW.TEITHIAUTANGO.CO.UK



**Cwrw da Cymreig a
Gwasanaeth
Cymraeg**




**Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
Trefforest CF375YB**

Ar agor pob dydd Gwener
09:00 – 17:00.

www.twtlol.com

Lluniau gan Dave Evans



Dechreuodd Dave baentio ryw ddeng mlynedd yn ôl wedi iddo ymddeol. Y cam cyntaf oedd ymuno â grŵp bach oedd yn paentio yn yr eglwys ym Mhenyrheol. Pan ddechreuodd yn y grŵp doedd e erioed wedi codi brwsh paent, ond wedi'r wers gyntaf syrthiodd mewn cariad â phob agwedd o baentio.

Mae tri llun o'i eiddo yn ystafell fwyta Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac mae wedi arddangos dros y pedair blynedd ddiwethaf yn yr ysbyty, hen adeilad y Cynulliad ac Oriel y Pier ym Mhenarth.

Cafodd yr ail wobwr yng Ngŵyl Gelfyddydol Cwm yr Aber ac enillodd y wobwr gyntaf yng Nghymdeithas Arlunio Caerffili.